



## Adroddiad Arholwyr TGAU



Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant  
Haf 2024

## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.<sup>1</sup>

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

## Cefnogaeth bellach

Mapio	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddogwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	<a href="https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/">https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/</a>
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	<a href="#">Porth CBAC</a> neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.  Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: <a href="#">Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)</a>

<sup>1</sup> Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	<a href="#">Porth CBAC</a>
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	<a href="https://adnoddau.cbac.co.uk/">https://adnoddau.cbac.co.uk/</a>
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	<a href="#">Porth CBAC</a> neu ar dudalen pwnc CBAC.
Arholi gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	<a href="#">Arholi gyda ni   CBAC</a>

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Crynodeb gweithredol	5
Uned 1: Twf, Datblygiad a Llesiant Dynol	6
Uned 2: Hybu a Chynnal Iechyd a Llesiant	9
Uned 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	13
Uned 4: Hybu a Chefnogi Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol	16
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol	19

## Crynodeb Gweithredol

### Unedau a Asesir yn allanol (1 a 3)

Yn gyffredinol, dangoswyd dealltwriaeth dda o'r berfau gorchmynnol gan lawer o ymgeiswyr. Mae nifer bach o ymgeiswyr yn colli marciau trwy beidio â mynd i'r afael â'r geiriau gorchymyn, e.e. ymgeiswyr yn rhestru yn hytrach nag esbonio. O ran y cwestiynau tariff uwch, bu diffyg manylder gan rhai ymgeiswyr a gallent fod wedi ehangu eu hatebion i gyrraedd marciau band uwch.

Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ehangu ar eu hatebion gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Sgoriodd y mwyafrif o ymgeiswyr yn dda ar gwestiynau AA1 yn y ddau bapur arholiad.

Byddai ymgeiswyr yn elwa wrth ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd, fel bod yr arholiad terfynol o bosibl yn achosi llai o straen, a ddim yn brofiad anghyfarwydd. Mae'r cynlluniau marcio o gyn-bapurau arholiad hefyd yn gallu bod yn adnoddau gwerthfawr i ategu gweithgareddau addysgu a dysgu. Gall ymarfer ffug-arholiad llawn helpu ymgeiswyr i wella eu sgiliau rheoli amser ac osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd yn y dyfodol.

### Unedau a Asesir yn fewnol (2 a 4)

Ar y cyfan, roedd y gwaith a welwyd o safon dda, ac yn dangos gwelliannau pellach ers y llynedd. Caiff canolfannau eu canmol am ystyried pwyntiau allweddol o adroddiad y Prif Weinidog yn 2023, a bu tystiolaeth o gymhwyso'r fanyleb yn well.

Dangosodd gwaith llawer o ganolfannau well dealltwriaeth ac ymdriniaeth fwy amrywiol, gan dynnu sylw at gryfderau'r ymgeisydd ac amrywiaeth o ddiddordebau. Defnyddiwyd prosesu geiriau yn bennaf ar gyfer y tasgau, a oedd yn caniatáu i ymgeiswyr gynnwys siartiau, graffiau a delweddau yn ogystal â chreu deunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo mwy cynhwysfawr. Defnyddiwyd cofnodion arsylwi i ryw raddau a bu hynny'n gymorth i'r broses gymedroli.

Dangosodd canolfannau dystiolaeth o arfer da gydag anodi manwl ar draws gwaith yr ymgeiswyr. Caiff hyn ei argymhell gan ei fod yn ddefnyddiol i sefydlu cysondeb o fewn a rhwng canolfannau.

Meysydd i'w gwella	Adnoddau ystafell ddosbarth	Disgrifiad byr o'r adnodd
Ymarfer cwestiynau arholiad	<a href="https://www.dysquiechydagofal.cymru/adnoddau/">https://www.dysquiechydagofal.cymru/adnoddau/</a>	Adnoddau Arweiniad i'r Arholiad (cyngor ac awgrymiadau ymarferol).
Gwybodaeth sylfaenol	<a href="https://www.dysquiechydagofal.cymru/adnoddau/">https://www.dysquiechydagofal.cymru/adnoddau/</a>	Trefnwyr Gwybodaeth/ Dysgu cyfunol

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TGAU

Haf 2024

### UNED 1: TWF, DATBLYGIAD A LLESIANT DYNOL

#### Trosolwg o'r Uned

#### Sylwadau Cyffredinol

Roedd llawer o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn yn gyffredinol, ond mae nifer bach o ymgeiswyr yn colli marciau drwy beidio ag ymateb yn briodol i'r geiriau gorchymyn, e.e. ymgeiswyr yn rhestru yn hytrach nag esbonio. Braff oedd gweld cymaint o ymgeiswyr yn cael sgôr da am C4c (cyfranogiad gweithredol). Mae'r maes hwn wedi bod yn heriol i lawer o ymgeiswyr o'r blaen. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ac yn gallu sgorio'n dda yn enwedig ar y cwestiynau AA1 yn y papur.

Wrth ateb rhai cwestiynau, roedd gan rai ymgeiswyr ddiffyg manylder a gallent fod wedi ehangu eu hatebion er mwyn ennill marciau yn y bandiau uwch. Roedd C7c, sef y cwestiwn â'r tariff uchaf, yn un enghraifft o hyn. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o fewn y cwestiwn hwn a hefyd yn defnyddio sillafu a gramadeg rhagorol oedd yn eu galluogi nhw i ennill marciau yn y band uchaf.

#### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 Yn gyffredinol, y cwestiwn hwn oedd un o rannau mwyaf hygyrch y papur. Roedd y cwestiwn yn seiliedig ar alw i gof a llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ateb y cwestiwn hwn yn gywir. Roedd twf a thyfu yn cael eu derbyn yn ogystal â datblygiad a datblygu.

- (b) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu enwi'r cam bywyd cywir yn y cwestiwn hwn.
- (c) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi mai 'incwm' oedd y ffactor economaidd gywir sy'n effeithio ar ddatblygiad dynol.

- Cw.2
- (i) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi un datblygiad corfforol cywir sydd i'w ddisgwyl gan blentyn pedair oed. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn cyfeirio at gerrig milltir datblygiadol sydd i'w disgwyl yn iau, fel cerdded a rhedeg.
  - (ii) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi un datblygiad emosiynol cywir sydd i'w ddisgwyl gan blentyn pedair oed. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn cyfeirio at gerrig milltir datblygiadol sydd i'w disgwyl yn iau, fel strancio.
  - (iii) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi un datblygiad deallusol cywir sydd i'w ddisgwyl gan blentyn pedair oed. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn cyfeirio at gerrig milltir datblygiadol sydd i'w disgwyl yn iau, fel dweud geiriau. Dylai ymgeiswyr fod yn fwy penodol, er enghraifft, gallan nhw ddefnyddio amrywiaeth o eiriau i ffurfio brawddegau.

- Cw.3 (a) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn gan lawer o ymgeiswyr ac roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y band marciau uchaf. Roedd nifer bach o ymgeiswyr wedi rhoi atebion oedd yn cyfeirio at agweddau eraill ar iechyd gan achosi iddyn nhw golli marciau. Dylai ymgeiswyr ddarllen y cwestiynau'n ofalus a dim ond ateb y cwestiwn sy'n cael ei ofyn.
- (b) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniadau da o effeithiau straen ar lesiant. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu cyfeirio at unrhyw agwedd ar P.I.E.S. yma. Byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o ddarparu enghreifftiau ychwanegol i ennill marciau uwch. Roedd lleiafrif bach o ymgeiswyr wedi rhestru effeithiau yn hytrach na'u hesbonio nhw.
- (c) Rhoddodd llawer o ymgeiswyr esboniadau da o ystyr y term gwydnwch gan esbonio sut gallai helpu i reoli straen. Roedd rhai atebion cryf oedd ddim yn cysylltu'n ôl yn amlwg â'r cwestiwn, ond yn dangos digon o ddealltwriaeth i ennill marciau. Dylai ymgeiswyr wneud yn siŵr bod eu hatebion yn ateb y cwestiwn.
- Cw.4 Cafwyd llawer o atebion â strwythur da i'r cwestiwn hwn oedd yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio effaith profedigaeth ar unigolion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y band uchaf am y cwestiwn hwn; derbyniwyd amrywiaeth eang o atebion.
- (b) Nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi sôn am oedolaeth ddiweddarach wrth ateb y cwestiwn hwn. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwneud eu hatebion yn benodol i'r cwestiwn lle bynnag y bo'n bosibl. Rhoddwyd marciau os oedd yr ateb yn berthnasol, p'un a oedd yn trafod oedolaeth ddiweddarach yn benodol ai peidio.
- (c) Roedd yn braf gweld cynifer o ymgeiswyr yn ennill marciau yn y bandiau uchaf am y cwestiwn hwn. Mae cyfranogiad gweithredol yn bwnc sydd wedi achosi trafferth i lawer o ymgeiswyr o'r blaen, ond eleni gwelwyd gwelliant enfawr yn safon yr atebion a roddwyd gan lawer o ymgeiswyr.
- Cw.5 (a) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill rhai marciau drwy amlinellu'r ffactorau corfforol ac amgylcheddol fyddai wedi gallu cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin. Fodd bynnag, fe wnaeth rhai ymgeiswyr gopïo rhannau o'r cwestiwn yn eu hateb heb ehangu ar eu hatebion.
- (b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill rhai marciau am y cwestiwn hwn. Roedd yn syndod fodd bynnag nad oedd llawer o ymgeiswyr yn cyfeirio at ofal a chymorth ffurfiol a hefyd anffurfiol allai fod ar gael i Catrin. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd yn sôn am sut gallai gofal a chymorth fod o fudd i blant Catrin yn hytrach na Catrin ei hun. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen y cwestiynau'n ofalus a dim ond ateb y cwestiwn sy'n cael ei ofyn.
- (c) Roedd y cwestiwn hwn braidd yn heriol i lawer o ymgeiswyr. Gallen nhw fod wedi cyfeirio at unrhyw agwedd ar gefnogaeth gymunedol, ond dim ond at gymorth â gofal plant gan deuluoedd eraill y cyfeiriodd llawer o ymgeiswyr. Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn eithaf cyfyngedig, felly roedd llai o ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf.
- Cw.6 (a) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi dwy ffynhonnell o ofal a chymorth ac roedd yr atebion mwyaf poblogaidd yn sôn am feddygon teulu ac ysbytai. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn sôn am glinigau imiwneiddio ond doedd hynny ddim yn ateb priodol gan fod Louis eisoes wedi datblygu'r frech goch.

- (b) Roedd nifer bach o ymgeiswyr wedi methu nodi dwy ffynhonnell briodol o ofal a chymorth, ac roedd y cwestiwn hwn yn anodd iddyn nhw. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau da yma drwy gyfeirio at e.e. cynnig cyngor am sut i reoli'r salwch a darparu meddyginiaeth i leddfu'r symptomau.
  - (c) Roedd llawer o ymgeiswyr yn sôn am beidio â chael y salwch yn y lle cyntaf a chael symptomau llai difrifol pe baen nhw'n mynd yn sâl. Roedd rhai o'r atebion gorau'n sôn am effaith ar iechyd deallusol neu gymdeithasol oherwydd colli meithrinfa neu grwpiau chwarae.
- Cw.7
- (a)
    - (i) (ii) Roedd yn syndod nad oedd llawer o ymgeiswyr wedi nodi'r agwedd ar ddatblygiad Joshua wrth ateb y cwestiwn hwn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi meysydd o fewn yr astudiaeth achos fyddai o fudd i'w ddatblygiad ond bydden nhw wedi elwa o roi atebion mwy penodol.
    - (b) (i) Roedd bron bob ymgeisydd yn gallu nodi'r digwyddiadau bywyd roedd Amy wedi'u profi ac roedd y rhan fwyaf wedi ennill marciau drwy grynhoi sut byddai'r rhain wedi gallu effeithio ar ei datblygiad a'i lles. Roedd llawer o ymgeiswyr yn dweud y byddai gadael yr ysgol mor ifanc wedi gallu effeithio ar ei datblygiad deallusol gan arwain at lai o gyfleoedd cyflogaeth.
    - (c) Hwn oedd y cwestiwn â'r sgorau uchaf ar y papur. Cafodd amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwn eu cynnig ond roedd llawer o ailadrodd o fewn atebion hefyd. Roedd yr atebion cyffredin yn cynnwys cefnogaeth emosiynol o ganlyniad i fyw gyda rhieni, cyngor ac arweiniad ynglŷn â magu plant a chymorth ariannol yn caniatáu i Amy deimlo'n ddiogel. Nid oedd nifer bach o ymgeiswyr wedi gwneud eu hatebion yn benodol i Amy, ac felly nid oedd y rhain yn gallu ateb y cwestiwn yn iawn. Cafwyd rhai atebion rhagorol oedd yn cynnwys sillafu a gramadeg rhagorol, ac roedd yr ymgeiswyr hyn yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr yn dangos prosesau meddwl clir mewn llawer o gwestiynau, ac roedden nhw'n gallu galw gwybodaeth i gof i ateb y cwestiynau â nifer llai o farciau. Roedd lleiafrif o ymgeiswyr wedi rhestru eu hatebion pan oedd cwestiwn yn gofyn iddyn nhw 'ddadansoddi' neu 'esbonio'. Dydy hyn ddim yn caniatáu i'r ymgeiswyr gyrraedd y bandiau marciau uchaf. Mae angen atgoffa ymgeiswyr i ymateb i'r gair gorchymyn a pharatoi eu hymateb yn briodol. Mae angen annog ymgeiswyr hefyd i dalu sylw agos i'r meysydd allweddol sy'n ofynnol ar gyfer pob cwestiwn ac ymateb i'r cwestiynau hynny yn unig, neu o leiaf cysylltu eu hatebion yn ôl â'r termau allweddol. Un enghraifft fyddai dim ond 'rhoi manteision cymdeithasol ac emosiynol' os mai dyna mae'r cwestiwn wedi gofyn amdano, fel yn C3a.

Roedd yn bleser gweld bod llawer o ymgeiswyr nawr yn dangos llawer gwell dealltwriaeth o'r term 'Cyfranogiad gweithredol' a'u bod nhw'n gallu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i'r cwestiwn yn effeithiol.



# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TGAU

Haf 2024

### UNED 2: HYBU A CHYNNAL IECHYD A LLESIANT

#### Trosolwg o'r Uned

Ar y cyfan, roedd y gwaith a gyflwynwyd eleni o safon uchel, gan ddangos gwelliannau pellach ers y llynedd. Mae canolfannau wedi ystyried pwyntiau allweddol o adroddiad yr uwch gymedrolwr, ac roedd tystiolaeth o gymhwyso'r fanyleb yn well.

Dangosodd gwaith llawer o ganolfannau well dealltwriaeth ac ymdriniaeth fwy amrywiol, gan dynnu sylw at gryfderau'r ymgeisydd ac amrywiaeth o ddiddordebau. Defnyddiwyd prosesu geiriau yn bennaf ar gyfer y tasgau, a oedd yn caniatáu i ymgeiswyr gynnwys siartiau, graffiau a delweddau yn ogystal â chreu deunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo mwy cynhwysfawr. Defnyddiwyd cofnodion arsylwi i ryw raddau a bu hynny'n gymorth i'r broses gymedroli.

Mae rhai canolfannau wedi anodi gwaith ymgeiswyr ac wedi defnyddio'r daflen farciau ar y clawr blaen i roi sylwadau am ble rhoddwyd marciau i ymgeiswyr. Caiff hyn ei argymhell gan ei fod yn ddefnyddiol i sefydlu cysondeb o fewn a rhwng canolfannau.

#### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

##### Tasgau

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

##### Tasg 1: Darparu gwasanaethau

**(a) Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion**

Fe wnaeth y rhan fwyaf o ganolfannau gynhyrchu gwaith oedd yn dangos amrywiaeth o anghenion penodol ar draws ystod o grwpiau targed, gan gynnwys llawer iawn o fanylion a gwneud ymchwil helaeth i ymchwilio i ddarpariaethau gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau'n cadw at ganllawiau ac yn cyflwyno gwaith ar fformat tabl, ac er nad yw hyn yn addas i bob tasg, mae'n addas i'r dasg hon, ac mae'n rhoi cyfle i'r ymgeiswyr fodloni'r amcanion asesu. Nid oedd yn ymddangos bod defnyddio tabl yn broblem i ymgeiswyr y bandiau uchaf yn y dasg hon. Bydden ni'n disgwyl i ymateb da i'r adran hon gynnwys manylion am y corff rheoleiddio, e.e. Ydyn nhw'n cadw cofrestrïadau gweithwyr? Ydyn nhw'n gyfrifol am arolygiadau? Beth sy'n digwydd os nad yw gwasanaeth yn bodloni'r safonau pan gaiff ei reoleiddio? Darparu dealltwriaeth o sut mae'r rheoleiddio'n digwydd. Mae nodi ffynonellau tystiolaeth wedi gwella ar y cyfan, ond mae rhai canolfannau wedi rhoi marciau mewn bandiau uchel i ymgeiswyr sydd heb ddangos y dystiolaeth hon. Nodwch fod rhaid enwi amrywiaeth o ffynonellau yn glir i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**(b) Ymchwilio i rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol**

Roedd y dystiolaeth yn yr adran hon yn llawer cryfach na'r llynedd, gan ddangos llawer gwell dealltwriaeth o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y rolau swydd hyn. Fel yn adroddiad y llynedd, mewn rhai achosion, caiff rolau swydd eu dewis o wahanol wasanaethau, er bod hyn wedi gwella ers y llynedd. Mynegwyd gwybodaeth am weithio amlasiantaethol yn llawer gwell eleni; roedd llai o ymgeiswyr yn rhoi disgrifiadau generig a mwy yn canolbwyntio ar eu cyfraniad at eu grŵp targed. Mae rhai canolfannau, fodd bynnag, yn dal i roi ymgeiswyr mewn bandiau marciau uwch pan nad ydyn nhw wedi dangos fawr ddim dystiolaeth, os o gwbl, tuag at weithio amlasiantaethol. I ennill marciau yn y bandiau uwch, mae angen esboniad trylwyr a pherthnasol o'r ffordd y gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at waith amlasiantaethol. Roedd dilyniant gyrfa'r gweithwyr proffesiynol allweddol wedi'i wneud yn dda ar y cyfan, a gwelwyd rhai atebion rhagorol yn rhoi dilyniannau penodol o fewn y maes gwaith dan sylw. Mae rhai enghreifftiau o hyd, fel y nodwyd y llynedd, o nodi opsiynau gyrfa i'r ochr.

**(c) Dadansoddi'r dasg**

Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau wedi dangos dealltwriaeth ragorol o'r dasg hon, ond mae gramadeg a sillafu cywir yn dal i achosi problem. Gan fod yr adran hon yn asesu ansawdd cyfathrebu'r ymgeisydd, i gyrraedd y bandiau uchaf, rhaid i ymgeiswyr allu cynhyrchu gwaith heb gamgymeriadau. Ychydig iawn o anodi sydd ar waith yr ymgeiswyr i nodi problemau â gramadeg a sillafu, a gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i'r aseswr benderfynu ar y bandiau marciau. Gwelwyd rhywfaint o ddadansoddi rhagorol sy'n ystyried anghenion y grŵp targed. Ceir yr un problemau pan fydd y dadansoddi'n generig, gan asesu addasrwydd y gwasanaethau a'r rolau swydd o ran y cyhoedd yn hytrach na'r grŵp penodol.

**Tasg 2: Hybu iechyd**

**(a) Dewis testun a grŵp targed**

Cafwyd dystiolaeth o rai atebion da iawn i'r dasg hon gan roi rhesymau manwl dros ddewis y grŵp a'r testun. Roedd yn dda gweld amrywiaeth fwy o bynciau, nid yn unig o fewn canolfannau unigol, ond yn gyffredinol. Roedd yr atebion oedd yn cynnwys data ystadegol i ddangos pwysigrwydd y mater a sut mae'n berthnasol i'r grŵp targed yn dangos bod yr ymgeiswyr yn deall y dasg oedd o'u blaen. Roedd defnyddio lluniau, siartiau a graffiau'n helpu ymgeiswyr i gyrraedd y band marciau uwch gan eu bod nhw'n ategu rhesymau dros ddewis y testun. Ar y cyfan, roedd yr atebion wedi'u cyfiawnhau'n dda neu'n dda iawn â thystiolaeth glir bod yr ymgeiswyr wedi rhoi cryn ystyriaeth i hyn.

**(b) Ymchwilio i'r testun dan sylw gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau**

Fe wnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr roi cynnig da ar yr adran hon; gwelwyd atebion manwl oedd yn dangos dealltwriaeth o ganllawiau a mentrau perthnasol y llywodraeth. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau'n dangos tystiolaeth glir bod gwaith ymchwil estynedig wedi digwydd. Mae rhywfaint o ddryswch o hyd wrth gynnig dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar y grŵp targed; roedd rhai wedi rhoi dylanwadau cadarnhaol a negyddol generig ar y grŵp targed oedd ddim yn berthnasol i'r testun dan sylw. Dylai pob adran o'r asesiad di-arholiad fod yn ystyrllon ac yn bwrpasol i ategu'r deunydd hyrwyddo mae'r ymgeiswyr yn ei gynhyrchu. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall pwrpas ymchwilio i'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar y grŵp dan sylw a'r testun fel bod hynny wedyn yn gallu rhoi sail i ystyried dulliau ymgyrchu yn nhasgau c ac ch. Mae'n bwysig hefyd bod gwaith ymgeiswyr yn cynnwys amrywiaeth eang o ffynonellau i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Yn dilyn y llynedd, mae'n ymddangos bod defnyddio ffynonellau wedi cael ei asesu yn seiliedig ar y gwaith a gynhyrchwyd yn hytrach na rhoi manylion y ffynonellau. Er bod hyn yn awgrymu bod ffynonellau wedi cael eu defnyddio, nid yw'n ddigon i ddangos ehangder ac amrywiaeth ac felly pa fand marciau mae'r ymateb yn perthyn iddo.

Mae rhai canolfannau'n dal i ddefnyddio fformatau tabl; er bod hyn yn gefnogol i ymgeiswyr ar lefelau is, mae'n gallu cyfyngu ar ymgeiswyr ar lefelau uwch.

**(c) Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli**

Gwelwyd gwelliant ym mherfformiad ymgeiswyr yn yr adran hon. Roedden nhw wedi gallu ymchwilio i fwy o ddeunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli. Fodd bynnag, mae angen i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf asesu perthnasol i gyrraedd y band marciau uwch yn ogystal â dangos ystyriaeth dda iawn a dyfarniad rhesymegol am eu haddasrwydd. Mae angen i ymgeiswyr ddadansoddi: Beth yw nodau'r deunydd? Pa mor addas ydyw i'r grŵp targed? I ba raddau mae ar gael i'r grŵp targed? A pha ffynonellau cymorth sydd ar gael i'r grŵp targed? Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith gafodd ei gynhyrchu yn berthnasol i'r grŵp targed a'r testun dan sylw. Mae hyn yn rhan bwysig o'r dasg oherwydd dylai effeithio ar yr ystyriaethau sy'n cael eu gwneud yn nhasg ch. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn gweld sut mae pob tasg yn effeithio ar y nesaf gan y bydd hyn yn rhoi mwy o bwrpas i'r tasgau ac i'w gwaith.

**(d) Cynllunio a chynhyrchu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd**

Dyma'r dasg â'r nifer uchaf o farciau ar gael; roedd y 3 tasg flaenorol yn paratoi am hon. Mae rhai problemau'n parhau mewn rhai meysydd. Mae ystyried dulliau a thechnegau i wneud ymgyrch effeithiol yn aml yn cael eu diystyru neu eu hanwybyddu wrth benderfynu ar yr ymgyrch derfynol. Er enghraifft, mae ymgeiswyr yn cydnabod anfanteision creu cyflwyniadau PowerPoint, ond yn dal i ddewis y dull hwn heb ddim neu brin ddim cyfiawnhad.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi cynhyrchu amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau hyrwyddo rhagorol, gan gynnwys creu fideos ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, dramâu a gwefannau, ond roedd yn ymddangos bod y mwyafrif wedi dewis cyflwyniadau PowerPoint a thafenni. Mae defnyddio tystiolaeth ffotograffig a datganiadau tystion wedi gweithio'n dda eleni i helpu i gynorthwyo'r broses safoni a sicrhau bod marciau wedi'u dyfarnu'n briodol. Anaml iawn y caiff dulliau adborth eu hystyried o hyd, ar wahân i'r dull sydd wedi cael ei ddewis. Mae angen i ymgeiswyr ddangos eu bod nhw wedi dewis eu dull adborth oherwydd eu bod nhw'n credu mai dyna yw'r un gorau i'w grŵp targed. Gellir cyflawni hyn drwy ystyried y manteision a'r anfanteision, gan gymharu sawl dull cyn dewis yr un mwyaf priodol. Dangoswyd tystiolaeth dda o agwedd gynllunio'r dasg, ac mae defnyddio bwrdd cynllunio i nodi costau, yr adnoddau sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer cwblhau rhannau penodol o'r dasg wedi gweithio'n llwyddiannus.

**(e) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg**

Cafwyd rhai atebion rhagorol i'r dasg hon, gan ddadansoddi adborth a gafwyd a sut mae wedi effeithio ar eu gwerthusiad. Eto, ceir problem o ddyfarnu band marciau 4 i atebion sy'n cynnwys gwallau sillafu a gramadeg. Mae rhai canolfannau'n defnyddio cwestiynau i arwain gwerthusiadau dysgwyr; er bod hyn yn gefnogol i ymgeiswyr yn y bandiau is, mae'n well ei ddefnyddio er mwyn gwahaniaethu yn hytrach nag fel techneg gyffredinol i'r garfan gyfan.

**Marcio tasgau**

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Mae angen ychwanegu ffynonellau gwybodaeth ym mhob rhan o'r dasg lle mae hynny'n ofynnol. Mae angen mwy o ddealltwriaeth o sut mae'r holl elfennau ar bob tasg yn darparu cam ymlaen i'r tasgau canlynol; dylai hyn helpu ymgeiswyr i weld bod ganddyn nhw'r wybodaeth sydd ei hangen i gymryd y cam nesaf.

Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw'n cwblhau'r gwaith o fewn y 15 awr a ganiateir. Mae defnyddio datganiadau tystion wedi bod o gymorth mawr i'r ymgeiswyr mewn rhai tasgau hyrwyddo, gan alluogi i farciau gael eu dyfarnu'n gywir, gan fod tystiolaeth ategol ar gael.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### TGAU

Haf 2024

#### UNED 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT YN YR 21<sup>AIN</sup> GANRIF

##### Trosolwg o'r Uned

Yn gyffredinol, dangoswyd dealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn gan lawer o ymgeiswyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ehangu ar eu hatebion gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag amryw o bynciau. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd cymhwyso'r wybodaeth hon wrth ateb cwestiynau penodol, megis C8 oedd yn edrych ar Ofal Iechyd Darbodus. Mewn rhai cwestiynau, roedd gan rai ymgeiswyr ddiffyg manylder a gallent fod wedi ehangu eu hatebion er mwyn ennill marciau uwch. Roedd C9, ar destun gofal iechyd cyfannol, yn un enghraifft o hyn. Roedd angen i ymgeiswyr asesu'r manteision i unigolion ac i ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Dim ond at un neu'r llall y cyfeiriodd llawer o ymgeiswyr, ac felly ni allent gyrraedd y bandiau marciau uwch.

##### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

- Cw.1 Roedd y cwestiwn hwn yn seiliedig ar alw i gof, oedd yn rhoi dechrau da i'r papur i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr; roedd llawer o ymgeiswyr wedi rhoi'r atebion cywir i gyd.
- Cw.2 Cwestiwn AA1 arall, ac roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu nodi tri nod cywir Cymraeg 2050: Strategaeth Iaith.
- Cw.3 Roedd yn syndod faint o ymgeiswyr oedd yn methu enwi rhaglen gyfunol maeth a gweithgarwch corfforol i geisio gwella deiet a gweithgarwch corfforol. Roedd hyn yn a'n effeithio ar eu hateb i 3b.
- Cw.4 (a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu esbonio ystyr gwahaniaethu. Byddai lleiafrif bach o'r ymgeiswyr wedi elwa o ehangu eu hatebion i ennill marciau llawn.
- (b) (i) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu disgrifio nod cynhwysiant i ennill marc.
- (ii) Roedd yr atebion yma yn amrywio ond llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i ennill o leiaf un marc am esbonio sut mae cynhwysiant yn helpu i atal gwahaniaethu.
- (c) Gwnaeth ymgeiswyr yn arbennig o dda yn y rhan hon o'r cwestiwn, a llwyddodd y mwyafrif i roi o leiaf dwy enghraifft o sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn hyrwyddo amrywiaeth a chydaddoldeb yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- (ch) Roedd y rhan hon o'r cwestiwn ychydig yn fwy heriol i'r ymgeiswyr ac nid oedd llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth o'r cwestiwn. Fodd bynnag, fe wnaeth rhai ymgeiswyr sôn am osod safonau a chynnal ymchwiladau.
- Cw.5 (a) Roedd atebion yr ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn yn gymysg. Roedd rhai yn amlwg yn deall beth yw ystyr y term 'Radicalaiddio' ond roedd eraill yn sôn am gam-drin neu esgeuluso.

- Cw.5 (b) Eto, ymatebion cymysg yma. Roedd y rhai oedd yn deall y term 'Radicalieiddio' yn gallu ennill marciau yma tra bod eraill oedd ddim yn ei ddeall yn colli marciau ar y cwestiwn hwn.
- (c) Yn gyffredinol, gwnaeth ymgeiswyr yn dda gyda'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf yn gallu nodi tair sefyllfa lle gallai fod angen diogelu plant a phobl ifanc. Roedd lleiafrif bach wedi camddeall y cwestiwn gan roi atebion fel 'yn yr ysgol' neu 'mewn meithrinfa'.
- (ch) Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu nodi archwiliad gofynnol ond wedi mynd ymlaen i ddangos dealltwriaeth o beth oedd pwrpas yr archwiliad ac roedd hynny yn ei dro yn caniatáu iddyn nhw ennill marciau.
- Cw.6 (a) (i) Roedd bron pob ymgeisydd wedi nodi'r ateb cywir yma, sef 5609 o blant.
- (ii) Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill o leiaf un, os nad dau farc yma drwy ddisgrifio'r patrwm.
- (b) I'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, nid oedd y cwestiwn hwn yn broblem ac roedden nhw'n ei ateb yn dda iawn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi rhestru rhesymau yn hytrach na'u hesbonio nhw, ac felly wedi colli marciau.
- (c) Roedd llawer o ymgeiswyr yn trafod yr effaith negyddol ar iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal yn unig, yn hytrach na chynnig trafodaeth fwy cytbwys am effeithiau cadarnhaol a negyddol. Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi ennill marciau uwch yma yn rhoi ymateb cytbwys oedd yn edrych ar effeithiau cadarnhaol a negyddol.
- (ch) Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd wedi rhoi ffynhonnell ddata gywir yma er bod rhai wedi rhoi atebion agos ac felly wedi ennill marc.
- (d) Ar y cyfan, cafwyd llawer o atebion trefnus i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn sôn am nodi ble yng Nghymru roedd afiechydon neu gyflyrau'n digwydd amlaf a data i ganiatáu i'r ymyrraeth gywir gael ei rhoi ar waith.
- Cw.7 Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i ennill rhai marciau yn y cwestiwn hwn ond dim ond ychydig iawn lwyddodd i gyrraedd y band marciau uchaf. Roedd un ateb cyffredin yn cyfeirio at well cyfathrebu, ond nid oedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ehangu ar eu hatebion. Roedd yr atebion oedd yn ennill sgorau uwch yn sôn am weithio tuag at nod cyffredin, mwy o effeithlonrwydd a gwasanaeth o safon uwch i unigolyn.
- (b) Roedd hwn yn gwestiwn heriol i lawer o ymgeiswyr. Roedd rhai ymgeiswyr yn sôn am y 7 nod llesiant ac yn gallu ehangu ar eu hatebion, ond roedd gan eraill ddiffyg dealltwriaeth o'r cwestiwn. Roedd y rhai oedd yn gwybod rhywfaint am y ddeddf yn gallu ennill marciau drwy ddangos hyn o fewn eu hateb.
- Cw.8 Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymgeiswyr oedd yn deall 'Gofal Iechyd Darbodus' yn gallu dangos hyn yn eu hatebion a gwelwyd rhai ymatebion da iawn. Nid oedd rhai ymgeiswyr eraill wedi dangos dealltwriaeth, ac roedd llawer yn trafod gofal iechyd cyfannol yn eu hatebion.

Cw.9 Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o ofal iechyd cyfannol yn eu hatebion, ac yn gallu ennill rhai marciau. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn sôn am naill ai'r manteision i unigolion NEU i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, yn hytrach na'r ddau fel roedd y cwestiwn yn gofyn amdano. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu rhai ymgeiswyr i ennill marciau uwch.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth dda am y pwnc ar draws ystod eang o destunau, er bod lleiafrif bach o'r ymgeiswyr yn drysu mewn rhai manau. Byddai rhai ymgeiswyr yn elwa o ehangu ar eu hatebion a defnyddio amrywiaeth ehangach o enghreifftiau i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhaid i ymgeiswyr wneud yn siŵr eu bod nhw'n rhoi sylw i bob maes o fewn y cwestiwn er mwyn ennill marciau'r bandiau uchaf. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ystyried nifer y marciau sydd ar gael cyn ysgrifennu eu hateb, yn enwedig wrth ateb cwestiynau tariff uwch.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### TGAU

Haf 2024

#### UNED 4: HYBU A CHEFNOGI IECHYD A LLESIANT ER MWYN SICRHAU CANLYNIADAU CADARNHAOL

##### Trosolwg o'r Uned

Roedd y gwaith a gynhyrchwyd eleni o safon uchel ac roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cwblhau'r dogfennau dilysrwydd gofynnol ac wedi cyflwyno eu samplau mewn modd amserol. Mae angen gwneud mwy i ystyried a chydabod rhai materion parhaus megis dangos tystiolaeth o'r ffynonellau a ddefnyddir a glynu'n well at y fanyleb a'r bandiau marcio drwy gydol y broses asesu. Roedd y gweithgareddau roedd ymgeiswyr wedi'u cynhyrchu'n llawer mwy ystyriol ac addas i leoliadau gofal, ac roedd tystiolaeth o'r gweithgareddau drwy ffotograffau a ffurflenni adborth yn gyfraniad da i gynorthwyo'r broses safoni.

##### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

##### Tasg: Gweithgaredd i fodloni angen

**(a) Ymchwilio i sut mae gwahanol fathau o ofal yn diwallu anghenion penodol grŵp targed o'ch dewis**

Ar y cyfan, roedd y gwaith yn yr adran hon yn rhagorol; roedd ymgeiswyr yn darparu ymchwiliadau manylach i'r grŵp targed dan sylw. Roedd gwelliant o ran sut gellir darparu gofal cyfannol a disgrifio anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp targed dan sylw. Roedd dealltwriaeth o ofal person-ganolog wedi gwella rywfaint, a da oedd gweld hynny, ond bydd mwy o ddealltwriaeth yn helpu ymgeiswyr i gyrraedd y band marciau uwch. Yn aml bydd aseswyr yn dal i anodi'r gwaith â'r geiriau 'gofal person-ganolog' er nad oes dim tystiolaeth o hyn yng ngwaith yr ymgeiswyr. Unwaith eto, fel y llynedd, mae angen i atebion ddangos tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**(b) Dadansoddi sut mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau gan y llywodraeth yn effeithio ar ddarpariaeth gofal i'r grŵp targed dan sylw**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r dasg, er fel y llynedd, roedd rhai ymgeiswyr yn dal i gyfeirio at dueddiadau mewn gwledydd eraill fel yn UDA. Dylid trafod tueddiadau'r DU neu Gymru wrth sôn am wledydd. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd yn cyfeirio at ddata Lloegr oedd yn amherthnasol i Gymru a mentrau Cymru. I ymateb yn gywir i'r dasg a chyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ddata fod yn berthnasol. Roedd cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â mentrau a chanllawiau perthnasol wedi gwella'n fawr. Mae defnyddio fformat tabl i gyflwyno gwaith wedi cyfyngu ar allu rhai ymgeiswyr i gyrraedd y band marciau uwch yn yr adran hon. Mae'n ddull addas i ymgeiswyr llai galluog ond nid yw'n annog ymgeiswyr i ymhelaethu'n llawn ar eu dadansoddiad a'u gwerthusiad o ddata. Roedd ffynonellau tystiolaeth wedi'u gwneud yn dda yn yr adran hon, ac roedd yn galonogol gweld hyn.



**(c) Ymchwilio i weithgareddau ystyrion i ddiwallu un o anghenion penodol y grŵp targed dan sylw**

Roedd yr ymateb i'r adran hon yn dangos gwelliant. Cafwyd gwaith rhagorol oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynglŷn ag amryw o wahanol weithgareddau yn ymwneud ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dangoswyd gwybodaeth yn dda am brif bwrpas tasgau a sut roedden nhw'n cefnogi PIES ar gyfer anghenion y grŵp targed. Fel yn yr adran flaenorol roedd llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio fformat tabl; roedd hyn yn golygu eu bod nhw'n ysgrifennu llai, ac mewn rhai achosion yn atal yr ymgeiswyr rhag cyflawni marc uwch. Dydy hyn ddim yn gallu dangos yr esboniadau na'r ystyriaethau clir sydd eu hangen i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Er bod hyn yn gyffredinol wedi'i farcio'n briodol, mae'n achosi anfantais i ymgeiswyr lefel uwch fyddai angen mwy o ryddid mynegiant i gyflawni eu potensial. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth glir o bwrpas y gweithgareddau a ddewiswyd ar gyfer y grŵp targed.

**(d) Cynllunio a chynhyrchu gweithgaredd ystyrion sy'n bodloni un o anghenion penodol y grŵp targed dan sylw, ac sy'n helpu i hybu hunaniaeth, hunanwerth ac ymdeimlad o sicrwydd neu wydwnch**

Bu gwelliant clir yn yr adran hon, o gymharu â'r gyfres ddiwethaf. Roedd yr ymgeiswyr wedi dewis llawer mwy o weithgareddau addas, ond mewn rhai canolfannau roedd y garfan gyfan wedi dewis gwneud yr un gweithgaredd beth bynnag oedd eu grŵp targed. Mae'r lleoliad lle roedd y gweithgareddau'n digwydd wedi gwella yn y rhan fwyaf o ganolfannau, ond roedd yn amlwg nad oedd rhai canolfannau wedi cadw at yr amgylchedd lleoliad gofal. Mae'n amlwg bod rhai canolfannau wedi ceisio annog gweithgareddau mewn lleoliadau priodol megis cartrefi gofal preswyl; cafwyd tystiolaeth ffotograffig o hyn. Os yw hyn yn digwydd, mae'n fwy ystyrion i'r ymgeiswyr gan eu bod nhw'n ystyried anghenion grŵp o bobl go iawn gan wybod y byddan nhw'n cymryd rhan. Dyma yw pwrpas yr asesiad, felly dylai fod pob canolfan yn cynhyrchu tystiolaeth o'r gweithgareddau sy'n digwydd mewn math o leoliad gofal sy'n berthnasol i'w grŵp targed. Mae defnyddio datganiadau tystion wedi cynorthwyo'r broses safoni. Ceir rhai problemau o hyd ers y llynedd o ran asesu iechyd a diogelwch, er bod adroddiad yr uwch gymedrolwr wedi nodi hyn y llynedd a'r flwyddyn flaenorol. Mae tablau iechyd a diogelwch yn cael eu defnyddio'n well gan ddangos mwy o bwyntiau sy'n berthnasol i'r grŵp neu'r gweithgaredd penodol. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i gael marciau mewn bandiau uchel heb ddim neu brin ddim tystiolaeth o gynllunio iechyd a diogelwch. Mae angen i ganolfannau sicrhau eu bod nhw'n glynu at y fanyleb a'r bandiau marciau. I gyrraedd y bandiau marciau uwch mae angen cynllunio'n drwyadl ac yn effeithiol ac mae angen dangos hyn yn glir. Yn gyffredinol, cafwyd tystiolaeth dda o adborth, sy'n welliant ers y llynedd.

**(e) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg**

Mae dadansoddi a gwerthuso wedi cael eu cyflawni'n dda yn yr adran hon. Fel y llynedd, cafodd amrywiaeth o fformatau eu defnyddio i ddangos canlyniadau gan gynnwys graffiau, siartiau cylch a thablau ac mae ymgeiswyr yn deall eu canlyniadau drwy ddadansoddi'n drylwyr. Mae tystiolaeth o sut mae ymgeiswyr yn defnyddio'r adborth hwn yn eu gwerthusiad hefyd wedi gwella. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i gael trafferth wrth ychwanegu dyfnder yn yr adran hon, ac yn aml yn rhoi cryfderau a gwendidau sydd ddim yn ystyried yr adborth a roddir, er bod hyn fel rheol wedi'i adlewyrchu'n gywir yn y penderfyniadau asesu a wneir. Does dim sôn am sut mae ymgeiswyr yn cynllunio'r gweithgaredd bob amser, a phan mae hyn yn digwydd, nid yw'n fanwl iawn. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o sut gallen nhw wella eu gweithgaredd, er ei bod yn werth nodi na wnaeth rhai ymgeiswyr sôn am hyn o gwbl.

## **Marcio tasgau**

### **Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

I sicrhau marcio cywir, sicrhewch fod y canllawiau marcio a'r fanyleb sydd ar gael ar wefan CBAC yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y bandiau marciau cywir yn cael eu dyfarnu. Mae angen cynnwys ffynonellau tystiolaeth yn glir ar gyfer pob tasg, ac mae anodi lle mae marciau wedi'u dyfarnu naill ai ar y clawr blaen neu ar waith yr ymgeiswyr o gymorth mawr i'r broses safoni. Mae defnyddio datganiadau tystion yn helpu i sicrhau bod gan ymgeiswyr dystiolaeth o'r gweithgareddau a gwblhawyd gan ganiatáu iddyn nhw sicrhau'r marc a roddwyd.

Rhaid defnyddio lleoliadau gofal. Lleoliadau addysg yw ysgolion ac ni cheir eu defnyddio yn lle lleoliadau gofal. Sicrhewch fod ymgeiswyr ac athrawon yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad. Nodwch fod dilysu gwaith ymgeiswyr yn orfodol.

## **Eich cefnogi chi**

### **Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol**

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ffôn: 02922 404 264

E-bost: [HSCandCC@wjec.co.uk](mailto:HSCandCC@wjec.co.uk)

Tudalen pwnc y cymhwyster: [Dysgu Iechyd a Gofal Cymru](#)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: [Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru](#)

### **Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol**

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: [Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru](#) <https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/>

### **Cymwysterau CBAC**

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)